

Uned Trin Canser Bronglais

BRIFF ARTIST

Comisiwn: Comisiwn Hunaniaeth Weledol

Ble: Prosiect Uned Trin Canser newydd Ysbyty Cyffredinol Bronglais yn Aberystwyth. (enw'r cyfleuster i'w gadarnhau)

Comisiynydd: Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIPHDd)

Dyddiad cau: 10 Hydref 2023

Pwy: Artist proffesiynol i'w greu

Beth: Cyfres o weithiau celf bwrpasol i greu hunaniaeth weledol gyffredinol ar gyfer Uned Trin Canser Bronglais ac i gyflawni'r weledigaeth a rennir ar gyfer rôl gwaith celf yn yr uned i dynnu ar amgylchedd hardd Gorllewin Cymru i helpu i feithrin ein cleifion.

Bydd y gwaith celf yn rhan allweddol o raglen Celf Gyhoeddus i helpu i sicrhau bod yr Uned Trin Canser newydd o'r radd flaenaf yn teimlo fel amgylchedd iachanol, cysurus a charedig sy'n adlewyrchu'n well y gwasanaeth a ddarperir i gleifion gan dîm CDU Bronglais.

Cyllideb: £10,000 gyda'r posibilrwydd o gael ei drosglwyddo i'r ystafell driniaeth os yw'n briodol ac os bydd cyllid yn caniatáu.

Ffilm gyhoeddus am yr uned (Gorffennaf 2023 - Cymraeg) [Diweddariad Prosiect Cemo Bronglais – Gorffennaf 2023 - YouTube](#)

1.Cyflwyniad

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn ceisio comisiynu cyfres o weithiau celf ar gyfer Uned Trin Canser Bronglais o'r radd flaenaf i sicrhau ei bod yn teimlo fel amgylchedd iachusol, cysurus a charedig sy'n adlewyrchu'n well y gwasanaeth o ansawdd uchel a ddarperir i gleifion gan dîm CDU Bronglais. .

Mae'r gwaith celf yn elfen bwysig o'r prosiect adeiladu hir ddisgwyliedig hwn ac mae'n seiliedig ar y dystiolaeth y gall gwella amgylchedd gofal iechyd gyda chelf:

- Gwella profiad a chanlyniadau cleifion
- Helpu cleifion i deimlo eu bod yn cael mwy o ofal a theuluoedd i deimlo bod eu hanwyliaid yn cael gofal
- Helpu i adnabod yr uned
- Darparu cysur, cefnogaeth a lleddfu
- Helpu i ddarparu urddas a pharch
- Cynnig tynnu sylw
- Gwella lles staff
- Helpu i hybu iachâd ac adferiad
- Cynorthwyo canfod y ffordd a chreu lleoedd

Rhaid i raglen gelf gyhoeddus o ansawdd uchel, meddylgar ac ystyriol ymateb i'r weledigaeth a rennir ar gyfer rôl gwaith celf yn yr Uned Trin Canser a bydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol cadarnhaol i brofiad cleifion a staff yn yr amgylchedd gofal iechyd arbennig hwn.

1. Briff yr Artist:

Comisiwn: Y Comisiwn Hunaniaeth Weledol

Beth:

Cyfres o weithiau celf weledol gydlynol ar gyfer prosiect Uned Trin Canser Bronglais o'r radd flaenaf.

Dylai gweithiau celf ystyried y wal gyfan gyda chynigion ar gyfer murluniau pwrpasol, gorchuddion wal neu atebion eraill.

Pam:

Creu hunaniaeth weledol gyffredinol ar gyfer prosiect Uned Trin Canser Bronglais trwy greu cyfres o weithiau celf gydlynol ar gyfer y dderbynfa, y prif ystafelloedd aros a'r mynedfeydd.

Ble:

Mae hyd at 6 wal ar gael yn Uned Trin Canser newydd Bronglais gyda'r posibilrwydd y bydd angen ateb pared gwydr rhannol ar rai waliau.

Lleoedd posib ar gael:

- 1) Derbynfa G03: wal y tu ôl i ddesg y dderbynfa neu
- 2) Amlap ar y ddesg dderbynfa

Ystafelloedd aros: Hyd at 3 wal mewn ystafelloedd aros sydd wedi'u rhannu'n 3 lle ar hyn o bryd:

- 3)G09 Man Aros Cleifion Allanol
- 4)G05 Man cymdeithasol a gwybodaeth
- 5) G10 Man Aros Cleifion Mewnol
- 6) Wal yn gyfochrog â'r dderbynfa yn edrych dros y man cymdeithasol.

Mae manylion thematig ac emosiynol llawn a dimensiynau wal ar gael isod.

Sut y bydd yn cefnogi cleifion ac yn ychwanegu gwerth at y cyd-destun iechyd?

I dynnu ar ein hamgylchedd hardd i'n helpu i feithrin ein cleifion a helpu i lunio awyrgylch sy'n teimlo fel amgylchedd gofal iechyd iachusol, gofalgar a charedig.

Gall gwaith celf wella profiad y claf a'r staff trwy ddarparu caredigrwydd a thosturi, dealltwriaeth, urddas a chysur.

Pwy:

Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen Celf Gyhoeddus CDU Ysbyty Cyffredinol Bronglais Hywel Dda yn comisiynu'r gwaith celf. Mae'r grŵp, sy'n cael ei gadeirio gan Elin Jones, Oncolegydd a Chlinigydd Arweiniol, yn cynnwys cynrychiolwyr o'r tîm Clinigol, tîm Celfyddydau mewn Iechyd, staff y prosiect Cyfalaf a chynrychiolwyr cleifion.

Kathryn Lambert, Cydlynnydd Celfyddydau mewn Iechyd Hywel Dda, fydd yn rheoli'r artist gyda chymorth Gaby Walters, Gweinyddwr Celfyddydau mewn Iechyd Hywel Dda.

Bydd y Cydlynnydd Celfyddydau mewn Iechyd yn adrodd i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ac yn cysylltu â Kevin Dobson, Pensaer Hywel Dda a fydd yn brif bwynt cyswllt â'r prif gontractwr i wireddu'r prosiect.

Pryd:

Disgwylir i'r datblygiad newydd agor ym mis Rhagfyr 2024.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn gwahodd artistiaid i fynegi eu diddordeb mewn creu gwaith celf pwrpasol ar gyfer yr uned mewn cydweithrediad â thîm y prosiect erbyn 10 Hydref 2023. Gweler yr amserlen isod am ragor o fanylion.

Cymhwyster:

Rydym yn chwilio am artistiaid gweledol proffesiynol, peintwyr, darlunwyr, artistiaid gwydr, gwneuthurwyr a dylunwyr sydd â phrofiad o greu gwaith celf ar gyfer lleoliad cyhoeddus/gofal iechyd.

Rydym yn awyddus i gomisiynu artistiaid sydd wedi'u lleoli yng Nghymru sydd â rhyw berthynas â Cheredigion a/neu ganolbarth Cymru, neu sydd â rhyw ddealltwriaeth ohonynt.

Cydraddoldeb:

Rydym yn arbennig o awyddus i glywed gan artistiaid o gefndiroedd diwylliannol ac ethnig amrywiol yn ogystal ag artistiaid byddar, anabl a niwro-wahanol.

Sut i wneud cais?

Gwnewch gais i gabrielle.walters@wales.nhs.uk drwy anfon eich Datganiad o Ddiddordeb fel yr amlinellir isod.

2. Y comisiwn

2.1 Nodau ac amcanion y comisiwn

Bydd angen i bob darn o waith celf gyflawni'r weledigaeth a rennir ar gyfer rôl gwaith celf o fewn CDU i greu awyrgylch cyfforddus a llonydd drwy dynnu ar natur a'r amgylchedd fel a ganlyn:

2.2. Themâu:

Bydd angen i weithiau celf dynnu ar thema natur:

- Trwy dynnu ar ein hamgylchedd hardd i'n helpu i feithrin ein cleifion a helpu i lunio awyrgylch sy'n teimlo fel amgylchedd iachusol, gofalgar a charedig.
- Dewis lliwiau, siapiau a delweddau sy'n adlewyrchu llonyddwch a dibynadwyedd natur trwy weithio o fewn lliw y cytunwyd arno
- Gartref gyda natur - O fynydd i'r môr (natur - tir a môr)

Rôl y gwaith celf fydd:

- Darparu ymdeimlad o ddiogelwch, preifatrwydd, urddas, cysur a thawelwch.
- Gwella golau a gofod
- Darparu amgylchedd cynnes, clyd a chartrefol
- Hyrwyddo gobaith a phositifrwydd ac adlewyrchu dewrder staff a chleifion.
- Darparu gwrthdynciad, rhywbeth newydd i edrych arno ar bob ymweliad, rhywbeth i siarad amdano a rhywbeth i atgoffa cleifion bod mwy i fywyd na'r eiliad hon
- Cynnwys pobl – yn helpu i wneud i bobl deimlo eu bod yn cael gofal, bod rhywun yn gwrando arnynt, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn ddiogel
- Bod yn Safle-benodol – bod yn berthnasol, wedi'i deilwra i'r safle/lle/gymuned honno – yn rhoi perthnasedd ac ystyr i waith celf ac yn helpu i ddatblygu straeon
- Bod yn ystyrlon i gleifion newydd a staff newydd yn ogystal â chleifion a staff presennol
- Adlewyrchu haelioni a chefnogaeth y gymuned leol
- Helpu i adeiladu hunaniaeth ar gyfer yr uned gyda gweledigaeth ac ymagwedd gydlynol.
- Meithrin staff gyda gofodau staff sy'n gyfforddus ac yn tawelu, gan ddarparu diogelwch a seibiant.

2.3. Disgrifiad o rôl yr artist

- Cydgysylltu â'r Tîm Prosiect, Grŵp Gorchwyl a Gorffen Celf Gyhoeddus, Grwpiau Defnyddwyr, penseiri, contractwyr ac ati.
- Ymgynghori ac ymgysylltu â chleifion, staff, y gymuned ehangach
- Ystyried cyfyngiadau penodol o ran iechyd a diogelwch a rheoli heintiau fel rhan o ddyluniad y gwaith
- Ystyried glanhau a chynnal a chadw'r gwaith celf yn y pen draw, gan gynnwys darparu llawlyfr glanhau a chynnal a chadw ar gyfer y gwaith celf
- Cynhyrchu dyluniadau cysyniad, drafft a therfynol
- Cyfrifoldebau o ran gosod y gwaith celf
- Cyfrifoldebau o ran dogfennu'r broses o wneud y gwaith
- Bydd angen i waith celf gydymffurfio â Gofynion Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg a chael ei ddylunio i fod yn hygyrch i bawb trwy ddatblygu ymagwedd ddwyieithog.

2.4. Lleoliad gweithiau celf

Cais cynllunio

Mae'r prosiect yn destun cais cynllunio ar hyn o bryd. Mae'r cais cynllunio ar gael i'w weld ar hyn o bryd ar wefan Cynllunio Ceredigion yn [Cynllunio a Rheoli Adeiladu - Cyngor Sir Ceredigion](#). Chwiliwch gyfeirnod cais Ysbyty Cyffredinol Bronglais:

A230485

Mannau aros	Prif fan aros (wal chwith)	4.07m	2.6m
	Prif fan aros (wal dde)	4.07m	2.6m
	G09 Man aros cleifion allanol (wal chwith) (hir)	8m	2.6m
	Ystafell Aros G10 (wal dde) (hir)	6.2m	2.6m
Wal pared byrrach	G09 Man aros cleifion allanol (wal dde)	4.07m	Ateb sgrin 900 mm uwchben gwaith bloc
Wal pared byrrach	Ystafell Aros G10 (wal chwith)	4.07m	Ateb sgrin 900 mm uwchben gwaith bloc

2.5. Ymchwil ac Ymgysylltu

Rydym eisoes wedi cynnal rhywfaint o weithgarwch ymgysylltu creadigol gyda staff a chleifion sydd wedi ffurfio'r weledigaeth a rennir ar gyfer rôl gwaith celf yn yr uned. Mae Adroddiad Ymgysylltu Creadigol ar gael ar gais.

2.6. Gwerthusiad

Bydd disgwyl i'r artist gymryd rhan mewn gwerthusiad prosiect o'r rhaglen gelf a pharatoi adroddiad gwerthuso i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ei ystyried a dysgu ohono.

2.7. Cyllideb a rhandaliadau ffioedd.

Cyllideb Gyffredinol: £10,000 ar gyfer hyd at 6 gwaith celf. Mae cyllid pellach yn cael ei geisio ar gyfer waliau pellach.

Rhaid i'r gyllideb gynnwys yr holl ffioedd Artist a chostau Saernïo.

Costau gosod – mae costau rhesymol ac arferol yn cael eu talu gan y contractwr.

Camau a dyddiadau talu ffioedd:

Bydd artistiaid yn cael eu talu mewn 3 cham

- 1) 30% ar lofnodi contract
- 2) 50% ar ôl derbyn y cynnig dylunio terfynol
- 3) 20% ar ôl ei gwblhau

DS, mae ffi'r Artist yn cynnwys yr holl gostau cysylltiedig megis teithio, llety, deunyddiau a threuliau a ysgwyddwyd gan yr Artist.

TAW: Mae'r ffi yn cynnwys Treth Ar Werth (TAW) lle mae'r artist wedi'i gofrestru ar gyfer TAW.

2.8. Rhaglen

10 Hydref 23	Dyddiad cau artistiaid
17 Hydref 2023	Dewis artistiaid: Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Celf Gyhoeddus yn dewis yr artistiaid i'w gwahodd i gyfweiliad
I'w gadarnhau	Cyfweiliad
23 Hydref 23	Artist wedi'i benodi a chontractio
23 Tachwedd 23	Cyflwyno Gwaith Celf Datblygu cysyniad a dyluniadau drafft
19 Rhagfyr 2023	Cytuno ar ddyluniadau cysyniad
Mawrth 2024	Dyluniadau drafft i Grŵp Gorchwyl a Gorffen Celf Gyhoeddus
Mai 2024	Cynlluniau terfynol yn cael eu cyflwyno a'u cymeradwyo i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Celf Gyhoeddus
Haf 2024	Saernïo a chynllun ar gyfer gosod
Hydref 2024	Cynllunio a chyflwyno gosodiadau
Medi/Hydref/Tachwedd 2024	Angen gosod gwaith celf terfynol

3. Cefndir a chyd-destun safle

3.1. Enw'r Sefydliad Comisiynu

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yw'r sefydliad comisiynu.

Dyma'r tro cyntaf i'r bwrdd iechyd gomisiynu rhaglen celf gyhoeddus fel rhan o brosiect cyfalaf.

Cytunodd Grŵp Llywio'r Prosiect i fuddsoddi mewn dull Celf Gyhoeddus ar gyfer y prosiect hwn oherwydd:

- y lefel uchel iawn o gefnogaeth a chyfranogiad cymunedol yn y prosiect
- natur arbennig yr amgylchedd gofal iechyd
- y diddordeb a fynegwyd gan y tîm clinigol a bod golwg a theimlad yr awyrgylch yn hollbwysig
- Yn unol â ffocws newydd y byrddau iechyd ar y Celfyddydau ac Iechyd a Siarter Celfyddydau ac Iechyd Hywel Dda sydd ar ddod.

- Fel prosiect peilot blaenllaw ar gyfer y Tîm Cyfalaf a Celfyddydau mewn lechyd newydd.

Rydym yn falch bod Uned Trin Canser Bronglais yn cael ei hariannu gan Elusennau lechyd Hywel Dda, elusen swyddogol Bwrdd lechyd Prifysgol Hywel Dda, diolch i haelioni ein cymunedau lleol.

3.2. Enw'r datblygiad newydd – Uned Trin Canser Bronglais (i'w gadarnhau)

Prif nod y prosiect yw galluogi Bwrdd lechyd Prifysgol Hywel Dda i ddarparu datrysiad diogel, lleol ac addas ar gyfer y dyfodol ar gyfer darparu triniaeth gwrth-ganser systemig (SACT) i bobl sy'n byw yng Ngheredigion a rhannau o'r siroedd cyfagos ac o'r rhain mae 40% o gleifion yn dod o siroedd cyfagos yng Ngogledd Powys a De Gwynedd.

Cydnabuwyd ers tro nad yw amgylchedd ffisegol CDU Ysbyty Cyffredinol Bronglais, sydd ar hyn o bryd o fewn rhan o Ward Leri ar lawr gwaelod yr ysbyty, yn addas i'r diben. Er bod y timau clinigol rhagorol dan sylw yn darparu'r gofal gorau posibl, mae angen moderneiddio'r amgylchedd presennol er mwyn caniatáu i'r gofal gorau gael ei roi. O ganlyniad, mae grŵp prosiect mewnol wedi'i ffurfio i archwilio'r opsiynau i ddatblygu uned driniaeth newydd yn Ysbyty Cyffredinol Bronglais er mwyn sicrhau bod datrysiad diogel, lleol ac addas ar gyfer y dyfodol yn cael ei roi ar waith ar gyfer darparu SACT ar gyfer pobl yr effeithir arnynt gan ganser yn y rhanbarth hwn.

Sefydlwyd Grŵp Prosiect CDU Ysbyty Cyffredinol Bronglais yn 2017 i sicrhau datrysiad diogel, lleol ac addas ar gyfer y dyfodol ar gyfer darparu cemotherapi (a meddyginiaethau cysylltiedig) i gleifion Ceredigion.

Mwy o wybodaeth:

- Ffilm gyhoeddus am yr uned (Gorffennaf 2023) [\(2\) Diweddariad Prosiect Cemo Bronglais – Gorffennaf 2023 - YouTube](#)
- Gellir gweld cynlluniau pensaernïol yma [Cynllunio a Rheoli Adeiladu - Cyngor Sir Ceredigion](#)

3.3 Beth yw anghenion cleifion?

Mae'r cleifion:

- yn bobl sy'n byw yng Ngheredigion a rhannau o'r siroedd cyfagos gyda 40% o'r cleifion yn dod o siroedd cyfagos Gogledd Powys a De Gwynedd.
- yn oedolion, 18+ oed
- yn dychwelyd yn aml
- mae'n bosibl bod ganddynt amseroedd teithio hir - felly mae angen croeso braf arnynt
- Weithiau yn dod gan eraill ond nid bob amser
- yn adeiladu perthnasau hir, llawn ymddiriedaeth gyda staff

Mae cleifion yn ymweld am

- a)neoadjiwfant –triniaeth cyn llawdriniaeth i wella'r siawns y bydd llawdriniaeth yn wellhaol
- b) ar ôl llawdriniaeth – am gwrs o driniaeth am hyd at 6 mis neu hyd yn oed flwyddyn, a roddir ar ôl llawdriniaeth i leihau'r risg y bydd y canser yn dychwelyd
- c)triniaeth liniarol ar gyfer canserau anwelladwy – cwrs o driniaeth gyda seibiannau byr neu driniaethau hirdymor parhaus sy'n arwain at berthynas hir gyda'r staff a'r uned

Mae angen gofalu am bob un o'r 4 elfen ar gleifion: Corfforol, Seicolegol, Cymdeithasol ac Ysbrydol.

Dangosodd mapio emosiynol taith y claf yr angen am waith celf i ddarparu:

- tynnu sylw, cysur a chefnogaeth
- urddas, gofal a pharch
- gobaith a phositifrwydd
- gofal a thosturi
- cysur
- sicrwydd a diogelwch

4. Gofynion Dylunio

4.1 Ymrwymiad i gynaliadwyedd:

Mae Hywel Dda wedi ymrwymo i gynaliadwyedd a dylunio bioffilig.

Disgwyliwn i'r artist gynnig gweithiau celf sy'n cwrdd â:

- Nodweddion gwyrdd Hywel Dda – drwy ystyried y deunyddiau, a'r prosesau gweithgynhyrchu a ddefnyddiwyd
- Uchelgeisiau Dylunio Bioffilig

4.2. Paramedrau technegol

Bydd yn rhaid i bob darn o waith celf gael ei ddylunio i fodloni'r holl ofynion technegol a rhaid ystyried:

- Llwythiadau (e.e., uchafswm llwytho nenfwd ar gyfer gwaith celf crog)
- Sgôr tân angenrheidiol o ddeunyddiau
- Paramedrau rheoli heintiau gofynnol
- Mynediad a gosod
- Pŵer

4.3. Cynnal a chadw a hyd oes

Dylai pob cynnig gwaith celf gael ei ddylunio i sicrhau ei fod yn hawdd ei lanhau a'i gynnal a'i gadw a chael ei adeiladu i bara.

4.4. Datgomisiynu

Os bydd y bwrdd iechyd yn dymuno datgymalu a gwaredu neu ail-osod y gwaith celf yn rhywle arall yn y dyfodol bydd cynllun yn cael ei lunio i ddatgomisiynu neu ail-leoli'r gwaith celf.

5. Y Proses Comisiynu

5.1 Rheoli prosiect ac adrodd

Kathryn Lambert, Cydlynnydd Celfyddydau mewn Iechyd Hywel Dda, fydd yn rheoli'r comisiwn a hi fydd eich prif bwynt cyswllt.

Bydd yr artist a gomisiynwyd yn adrodd i Kathryn a'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Celf Gyhoeddus.

5.2. Cyfrifoldebau'r comisiynydd

Bydd BIP Hywel Dda yn cymryd cyfrifoldeb dros:

- Gwaith galluogi, gwaith strwythurol ar y safle.
- Cysylltu'r artist â staff y prosiect, tîm clinigol, cleifion a chontractwyr yn ôl yr angen
- Hyrwyddiadau o'r gwaith celf

5.3. Trefniadau cytundebol

Bydd yr artist yn cael ei contractio unwaith gyda *thaliad mewn tri cham* – 1) ar gyfer llofnodi cytundebau 2) dyluniad terfynol 3) gwneuthuriad a gosod a gwerthuso

5.4. Caniatâd cynllunio

Mae'r prosiect yn amodol ar gais cynllunio fel y disgrifir uchod.

5.5. Proses cymeradwyo dyluniad

Bydd gofyn i'r artist gynhyrchu dyluniadau drafft a therfynol i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Celf Gyhoeddus yn unol â'r amserlen arfaethedig.

Bydd yr artist yn cyflwyno dyluniadau drafft a therfynol i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Celf Gyhoeddus i gael sylwadau a chymeradwyaeth.

Bydd y grŵp yn ceisio arweiniad a chynghor pellach cyn cymeradwyo dyluniadau terfynol. Er enghraifft: Cymeradwyaeth Rheoli Heintiau; Aseidiadau Risg Gosodiad a Datganiadau Dull (RAMS).

Bydd disgwyl i'r artist gynnwys cyllideb wedi'i chostio'n llawn fel rhan o'r dyluniadau terfynol yn unol â'r gyllideb y cytunwyd arni.

5.6. Gosodiad

Darperir Asesiad Risg gosodiad a Datganiad Dull gan y contractwr mewn cydweithrediad â'r artist.

Bydd yn rhaid i'r Artist fynychu sesiwn gynefino ½ diwrnod cyn mynychu'r safle, gan wisgo PPE llawn pan fydd yn derbyn safonau safle'r contractwr.

Yr artist fydd yn gyfrifol am ddanfôn y gwaith gorffenedig i'r safle a bydd yr artist yn talu costau danfôn (gan gynnwys pecynnu, cludiant ac yswiriant) o'u ffi.

5.7. Perchnogaeth gweithiau celf

Bydd y gweithiau celf a gomisiynir yn eiddo i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar ôl eu gosod.

5.8. Yswiriant

Mae'n ofynnol i'r artist feddu ar yswiriant atebolrwydd cyhoeddus o hyd at £5 miliwn.

Bydd disgwyl i'r artist ddarparu manylion am hyn wrth lofnodi'r cytundeb.

Ni fydd y gwaith celf yn cael ei yswirio.

5.9. Gwarantau

Disgwylir i'r artist gywiro unrhyw ddiffygion neu dalu costau atgyweirio rhesymol i'r gwaith, a achosir gan wneuthuriad, deunyddiau neu ddyluniad, sy'n codi o fewn deuddeg mis ar ôl gosod a chymeradwyo'r gwaith.

6. Proses dewis artist

Bydd datganiadau o ddiddordeb gan artistiaid yn cael eu cynnig i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Celf Gyhoeddus i'w hystyried.

Sut i wneud cais?

Gwnewch gais i **gabrielle.walters@wales.nhs.uk** drwy anfon eich Datganiad o Ddiddordeb o ddim mwy nag 1 ochr A4.

Dylai ceisiadau gynnwys:

1. Ymateb byr i'r briff hwn, dim mwy nag un ochr A4, yn amlinellu pam mae gennych ddiddordeb yn y comisiwn hwn a sut y byddech yn mynd ati.
2. Enghreifftiau o'ch gwaith blaenorol (hyd at 12 delwedd o'ch gwaith, a ddylai fod yn jpegs o faint y gellir ei e-bostio) trwy url.
3. Manylion cyswllt 2 ganolwr, dylai'r rhain fod yn gomisiynwyr diweddar neu'n weithwyr proffesiynol/tiworiaid yr ydych wedi cydweithio â nhw
4. CV cyfredol

Manylion cyswllt:

Anfonwch eich cyflwyniad, wedi'i nodi'n glir ag enw'r comisiwn yr ydych yn gwneud cais amdano, at:

Cydgysylltydd y Celfyddydau mewn Iechyd Gabrielle Walters drwy e-bost gabrielle.walters@wales.nhs.uk

Cyfeiriad: Spring Fields, Ysbyty Llwynhelyg, Heol Abergwaun.

Dyddiad cau:

Y dyddiad cau ar gyfer datganiadau o ddiddordeb yw 5pm ar 10 Hydref 2023

Bydd rhestr fer o artistiaid yn cael eu gwahodd i gyfweliad.

7. Gwybodaeth bellach

Am fwy o wybodaeth neu i drafod y briff hwn yn fwy manwl, cysylltwch â Kathryn.lambert@wales.nhs.uk neu gabrielle.walters@wales.nhs.uk

Hysbysiad Preifatrwydd

Mae Tîm Celfyddydau mewn Iechyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn parchu eich preifatrwydd ac yn diogelu'r holl wybodaeth bersonol a roddwch i ni fel rhan o'ch Datganiad o Ddiddordeb. Dim ond fel rhan o'r broses ymgeisio hon y bydd y wybodaeth a roddwch yn cael ei defnyddio i ohebu â hi.

Cliciwch yma am fanylion llawn hysbysiad Preifatrwydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Os hoffech gael y wybodaeth ddiweddaraf am gyfleoedd a newyddion Celfyddydau mewn Iechyd eraill Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, rhowch wybod i ni yn eich cais.

Os hoffech drafod unrhyw beth cyn gwneud cais e-bostiwch Cydlynnydd Celfyddydau mewn Iechyd Hywel Dda kathryn.lambert@wales.nhs.uk

